O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2024 Rhif 1348 (Cy. 230)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Caergybi, Ynys Môn i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2024

Gwnaed	*17 Rhagfyr 2024*
Yn dod i rym	*27 Rhagfyr 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Caergybi, Ynys Môn i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Rhagfyr 2024.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi a chefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 27 Rhagfyr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal dros dro

7. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau rhwng Cyffordd 2 (Bae Trearddur) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn) (Cyfyngu ar Aros) 2016(**1**) wedi eu hatal dros dro yn ystod yr adegau hynny pan fo'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

(**1**) O.S. 2016/256 (Cy. 90).

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Rhagfyr 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar), Cyffordd 5 (Cyfnewidfa yr A4080/Treban), Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant), Cyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du), Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael-y-Bowl), Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) a Chyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon).

Y darnau o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 7A (Cyffordd Gorllewin Llanfairpwll), y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8A (Cyffordd yr A5/Pont Britannia) a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

Y darnau o gilfannau'r gefnffordd rhwng Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) a Chyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).